BBC Bitesize

# CA3 Cymraeg – Gwerthfawrogi ‘Bws Ysgol’ gan Gwion Hallam

**Gweithgaredd 1**

**Atebion**

| Enw’r nodwedd | Enghraifft | Effaith |
|---|---|---|
| trosiad | *seddau mawr cartŵn* | Awgryma hyn nad yw’r profiad yn real rywsut – mae fel ei fod mewn ffilm neu yn rhan o fywyd rywun arall. |
| cyffelybiaeth/ cymhariaeth | *bag fel ffrind*<br>*fel milwr ffilm* | Pwysleisia hyn unigrwydd y bachgen - nid oes neb yn sefyll wrth ei ochr. Mae’n gwybod beth sy’n dod ond yn gallu gwneud dim am y peth. |
| personoli | *croen yn gwrando’n chwys* | Dengys hyn ei fod yn aros am y geiriau, yn gwybod eu bod yn dod, gan atgyfnerthu’r syniad ei fod yn digwydd bob dydd. |
| cyflythrennu | *bang y bom*<br>*glec grenêd y geiriau* | Dyma effaith y geiriau ar y bachgen – mae fel ei fod mewn rhyfel a’r geiriau yn cael eu taflu fel bomiau, heb ystyried eu heffaith. |
| deialog | *Oi gay-boy? Mae pawb yn gwybod* | Dangosa’r deialog i ni y geiriau creulon gan ddod ag agwedd real i’r gerdd |


© BBC